

## **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Pen-y-bont ar Ogwr) 2017-2020**

1. *Nodwch weledigaeth, nod ac amcanion eich awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf. Cyfeiriwch at adran 19 yn y canllawiau ar gyfer yr hyn y mae angen i chi ei gynnwys yn yr adran yma.*

### **Gweledigaeth:**

Gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw y dylai ein darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'n cymorth i addysgu'r Gymraeg wneud y canlynol:

- cyflawni egwyddorion allweddol cydraddoldeb, dewis a chyfle i bawb;
  - parchu, hybu ac ymgorffori amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru;
  - cydnabod treftadaeth Gymreig gyffredin;
  - adlewyrchu anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif;
  - rhoi cyfle i fyfyrion ar hunaniaeth bersonol ac ymdeimlad o le a chymuned a datblygu'r rhain;
  - bod yn gyson â'r dyheadau cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (SACC) Llywodraeth Cymru;
  - ystyried Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru (2016) i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
  - bod yn gyson â'r strategaethau canlynol gan Lywodraeth Cymru:
- a. Ailysgrifennu'r Dyfodol - <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy>; Bydd hon yn cael ei chyflawni trwy strategaeth 'Cau'r Bwlch' Consortiwm Canol De Cymru a thrwy 'Strategaeth Grwpiau Agored i Niwed' Pen-y-bont ar Ogwr.
  - b. Dyfodol Llwyddiannus - <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?lang=cy>; Bydd hon yn cael ei chyflawni trwy waith strategaethau dysgu ac addysgu Consortiwm Canol De Cymru a thrwy adolygiad strategol Pen-y-bont ar Ogwr – gan gyfeirio'n arbennig at ffrwd waith y Cwricwlwm a Chynllunio'r Gweithlu.
  - c. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>; Bydd hon yn cael ei chyflawni trwy'r gwaith amlasiantaeth a gyflawnir gyda phartneriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thrwy'r canolfannau cymorth cynnar a bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhoi sylw dyledus i'r saith nod, gan gyfeirio'n arbennig at: 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'

### **Y sefyllfa bresennol**

Ar hyn o bryd mae 4 ysgol gynradd Gymraeg ac 1 ysgol uwchradd Gymraeg yn yr ALI. Mae un o'r ysgolion cynradd yn llawn hyd eithaf ei chapasiti ond mae lleoedd gwag yn y 3 ysgol arall (Cwm Garw, Cynwyd Sant, Ysgol y Ferch O Sgêr). Mae gwaith hyrwyddo'n mynd rhagddo gyda Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg ac ysgolion cynradd i hybu manteision dwyieithrwydd i rieni a chaiff hyn ei gefnogi gan y Tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu yn yr ALI. Mae gwaith yn mynd rhagddo i recriwtio mwy o ddisgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg ac i'w cadw nes eu bod yn cwblhau eu haddysg ffurfiol (manyilir ar hyn yn Neilliant

1).

O fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, mae Adolygiad Strategol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae hwn yn ystyried 'tirwedd' yr holl ddarpariaeth addysgol a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer gwaith cynllunio yn y dyfodol, y bydd llawer ohono'n effeithio'n uniongyrchol ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae pedair ffrwd waith i gefnogi hyn ac mae cynrychiolaeth dda o blith y sector cyfrwng Cymraeg ar bob un ohonynt: ÔI-16; Y Cwricwlwm a'r Gweithlu; Moderneiddio Ysgolion; ac Arweinyddiaeth a Ffedereiddio.

Mae'n bwysig nodi bod yr adolygiad gan Lywodraeth Cymru o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi arwain at nifer o adolygiadau o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a bod peth o'r data a gyflwynir ar hyn o bryd wedi dyddio o ganlyniad. Yn dilyn ymgynghori â swyddogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi parhau i adolygu'r cynllun. Roedd rhan o'r trafodaethau hyn yn cynnwys y cynnig am Grant Cyfalaf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018 sy'n cynnwys cynlluniau i ddarparu pedwar lleoliad blynyddoedd cynnar i fwydo ysgolion cynradd Cymraeg presennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol (gan gynnwys darpariaeth feithrin yn nhref Pen-y-bont).

### **Targedau**

1. Cyflawni cynnydd o **5%** yn y niferoedd sy'n mynd i mewn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar
2. Gwella cyfraddau trosglwyddo **10%** rhwng pob cyfnod addysg a chynyddu cyfradd cadw plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a CA2
3. Sefydlu'r gofynion ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a thrwy Adolygiad Strategol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn hyrwyddo a blaenoriaethu'n unol â hwy.
4. Datblygu cynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth yn unol â chanfyddiadau'r arolwg o'r Galw ymhlith Dysgwyr ac Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

**Amcanion:** *(Nodwch beth fydd eich pedwar prif amcan i gyrraedd y targedau yr ydych wedi'u gosod. Gall y rhain fod yn weithgareddau y bydd y Fforwm yn eu cyflawni neu'n rhai gan sefydliadau sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar/gofal plant, ysgolion a/neu awdurdodau lleol).*

- Cynnal Arolwg o'r Galw ymhlith Dysgwyr ac Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac ymateb i ganlyniadau'r rhain
- Datblygu astudiaeth ddichonoldeb o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif – a gaiff ei goleuo gan yr Arolwg o'r Galw ymhlith Dysgwyr (gweler y ddogfen sydd wedi'i hatodi) a chan yr Adolygiad Strategol a'r Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant
- Cyflawni cynnydd o **5%** yn y gyfradd recriwtio plant i addysg cyfrwng Cymraeg dros y 3 blynedd nesaf trwy gyflwyno deunyddiau hyrwyddo a grëwyd o fewn yr awdurdod lleol a chan Lywodraeth Cymru sy'n nodi manteision bod yn ddwyieithog a thrwy drefnu darpariaeth ychwanegol lle mae digon o alw. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan y ffaith bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi cytuno i groesawu Eisteddfod yr Urdd yn nhymor yr haf, 2017
- Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaeth i gynyddu'r gyfradd cadw plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a CA2, gan gynnwys yr adolygiad arfaethedig o gymorth gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.

### **Datganiad:**

Wrth wireddu'r weledigaeth hon, ein nod yw sicrhau bod y Cyngor a'i bartneriaid yn y

#### Fwrdeistref Sirol:

- Yn deall eu priod rolau yn Fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn perthynas â llunio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a monitro ei gynnydd
- Yn hyrwyddo'r iaith i greu galw
- yn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i'r holl blant o oedran cyn ysgol ac uwch y mae eu rhieni/gofalwyr am iddynt gael eu gofal/addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol i gartrefi plant
- sicrhau continwmm datblygol o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, fel bod disgyblion sy'n dechrau eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn symud ymlaen i ysgol uwchradd Gymraeg ac yn symud ymlaen yn briodol wedi hynny at addysg bellach ac uwch a hyfforddiant
- sicrhau yr addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf a / neu ail iaith ar amserlen ein holl ysgolion, yn unol â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol, a bod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i sefyll arholiad a achredir yn allanol mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4
- sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfartal ieithyddol o ran addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru a Strategaeth Cynhwysiant Addysgol y Cyngor a'r rhaglen newydd i Ddiwygio'r System ADY
- sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgol Gymraeg ddynodedig yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl ysgolion er mwyn gwella safon Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith
- mynd ati ymhellach i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon am Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, a darparu cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth am ethos / nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy'r Cwricwlwm Cymreig
- hybu datblygiad pellach sgiliau iaith Gymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol, ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid.

Mae'r weledigaeth hon a'r nodau hyn yn ategu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (ac fe'u goleuir gan y Strategaeth honno), yn arbennig Nodau Strategol 1-4 a 6 ynddi, a'i gweledigaeth ar gyfer 'system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle'. Mae'r Cynllun Strategol a ganlyn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cefnogi'r amcanion sy'n gysylltiedig â'r nodau hynny ac yn chwarae ei ran yn y gwaith o gyflawni'r pum canlyniad cenedlaethol ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng

Cymraeg. Mae hefyd yn nodi sut y mae datblygiadau mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn cyfrannu at yr angen ehangach i godi safonau cyrhaeddiad, ym Mhen-y-bont ar Ogwr a ledled ardal Consortiwm Canol De Cymru.

*2. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwch ddatganiad ynghylch hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol. Nodwch unrhyw heriau a / neu feysydd lle ceir arfer da trwy gydweithio.*

Mae dwy o'r pedair ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'u lleoli yng Ngogledd y fwrdeistref sirol., y naill yn y gorllewin a'r llall yn y de. Gwasanaethir disgyblion yn y dwyrain gan drefniant cydweithredol gyda RhCT, yr ALI cyfagos. Mae'r ysgol uwchradd wedi'i lleoli yng ngogledd y fwrdeistref sirol, ac nid dyma'r lleoliad mwyaf hygyrch ar gyfer y disgyblion hynny sy'n byw ar gyrion y fwrdeistref sirol.

Er y cydnabyddir bod y ffaith bod llai o ddisgyblion ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn golygu bod rhaid i ddisgyblion sy'n mynychu Addysg Gymraeg deithio'n bellach na'r rhan fwyaf o ddisgyblion eraill, darperir cludiant am ddim ar gyfer y disgyblion cynradd hynny sy'n teithio 2 filltir neu fwy ac ar gyfer disgyblion uwchradd ac ôl-16 sy'n teithio 3 milltir neu fwy.

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

**Sut fydd y weledigaeth ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cael ei gweithredu trwy eich rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif?**

O fewn Band A yn Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif mae darpariaeth i godi ysgol newydd ar gyfer YGG Cwm Garw sy'n rhan o brosiect De Cwm Garw. Y bwriad yw y bydd yr ysgol ag 1 dosbarth ym mhob blwyddyn yn agor ym mis Ionawr 2019. Er nad oes cynnydd mewn capasiti ar gyfer disgyblion 4-11 oed bydd cynnydd yn nifer y lleoedd ar gyfer plant meithrin a fydd yn galluogi mwy o ddisgyblion i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd YGG Cwm Garw yn adleoli i dde'r cwm ac o ganlyniad bydd yn fwy hygyrch gan fod yn ganolog i'r dalgylch. Disgwylir y bydd y lleoedd gwag sy'n bodoli ar hyn o bryd yn YGG Cwm Garw yn gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r symud. Efallai y bydd newid i ddalgylchoedd YG Bro Ogwr ac YGG Cwm Garw; bydd penderfyniad ynglŷn â hyn yn cael ei wneud flwyddyn ar ôl symud i'r ysgol newydd.

Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn cynnal Adolygiad Strategol o addysg. Mae 4 ffrwd waith yn yr adolygiad; mae'r ffrwd waith Moderneiddio Ysgolion (Band B) yn cynnwys prosiect sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan ystyried anghenion y sector yn awr, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae **astudiaeth ddichonoldeb o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg** ledled y sir wrthi'n cael ei chynnal a phan fydd yn cael ei chyhoeddi bydd yn argymhell opsiynau posibl o ran sut orau i gynyddu a chadw niferoedd y disgyblion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 2030. Bydd yn ystyried canlyniadau'r arolwg o'r galw ymhlith dysgwyr, lleoliadau ysgolion cynradd, eu hagosrwydd at yr ysgol uwchradd Gymraeg a threfniadaeth ysgolion – gan gynnwys trefniadau cydweithredol ar hyn o bryd – a bydd hefyd yn ystyried y rhesymau dros y diffyg parhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg a nodwyd gan y Strategaeth Twf a Chadw.

**Disgrifiwch addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol - y nifer a'r math o ysgolion yn ogystal ag unrhyw enghreifftiau diweddar o fuddsoddi cyfalaf. Os oes datblygiadau economaidd / tai newydd o fewn yr awdurdod, sut fyddwch yn sicrhau y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o'r datblygiadau gan gynnwys unrhyw gytundebau 106 y bydd modd eu defnyddio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg:**

Mae 4 ysgol gynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg ac 1 ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae pwysau ar leoedd yn YG Bro Ogwr wedi arwain at osod caban dwbl i'w ddefnyddio fel ystafelloedd dosbarth o adnoddau cyfalaf y Cyngor. Fe wnaed buddsoddiad cyfalaf yn YGG Cwm Garw hefyd, o ran y gwaith sy'n ymwneud â datblygu'r ysgol newydd y bwriedir iddi agor ym mis Ionawr 2019.

Mae datblygiadau tai yn yr arfaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol a fydd yn ysgogi cyfraniadau Adran 106 at leoedd addysg. Bydd y Cyngor yn penderfynu ble y caiff yr arian o'r datblygiadau hyn ei fuddsoddi gan gynnwys darpariaeth briodol ar gyfer lleoedd cyfrwng Cymraeg. Gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar y galw am leoedd o fewn dalgylch ysgol y datblygiad. Mae nifer o bocedi o ddatblygiadau tai bach yn ardal Porth y Cymoedd y mae Bro Ogwr yn ysgol ddalgylch iddi ar hyn o bryd, er y rhagwelir y gall disgyblion symud i safle newydd Cwm Garw ym Metws lle mae'r nifer presennol a'r amcanestyniadau'n dynodi y dylai fod rhai lleoedd gwag. Bydd adolygiad o'r dalgylchoedd yn cael ei gynnal flwyddyn ar ôl i'r ysgol symud i'w safle newydd. Ceir datblygiadau yng Ngogledd Ddwyrain Bracla (450 o dai) ac yn ardal Llangrallo/Pen-coed (290 o dai) hefyd.

Yn ddiweddar mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r argymhellion i symud y cynlluniau Band B ymlaen at arfarniadau o'r opsiynau ar gyfer dichonoldeb a dyluniadau mwy manwl (3 Hydref

2017). Roedd y cynlluniau'n cynnwys Rhaglen Amlinellol Strategol Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif Pen-y-bont ar Ogwr a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i wneud ymrwymiad i gynyddu'r ddarpariaeth bresennol:

- Gorllewin Pen-y-bont (darpariaeth cyfrwng Cymraeg â 2 ddsbarth ym mhob blwyddyn) yn unol â'r arolwg o addysg cyfrwng Cymraeg a oedd yn dynodi bod galw am ddarpariaeth gynradd ychwanegol yn yr ardal honno. Gallai hyn fod yn ddarpariaeth newydd neu'n lleoedd ychwanegol mewn darpariaeth bresennol yn yr ardal.
- Gogledd Ddwyrain Pen-y-bont (lle gall fod cyfle i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol i ateb y galw o du'r datblygiadau tai cyfredol gan fynd i'r afael o bosibl â nifer y lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal) fel cynlluniau Band B y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o ymateb strategol i'r effaith ar yr holl ysgolion yn yr ardal.

Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriad penodol at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol' er bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ble y caiff yr arian ei fuddsoddi. Bwriedir adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol agos iawn a bydd sylw arbennig yn cael ei roi i'r gofynion o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth eu datblygu.

**Os oes unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn trothwy capasiti o 10% neu ysgolion sy'n nesáu at eu capasiti, disgrifiwch eich cynlluniau i sicrhau bod digon o leoedd ysgol:**

Yn ôl y sefyllfa ym mis Mai 2016, roedd tair o'r pedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg o fewn y trothwy capasiti o 10% (datganiad i Lywodraeth Cymru parthed lleoedd gwag). Ystyrir y bydd adleoli YGG Cwm Garw i dde Cwm Garw yn lleddfu'r pwysau ar leoedd yn YG Bro Ogwr, heb anghofio bod yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhan o brosiect adolygu sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, y gallai ei ganlyniad nodi'r angen i fuddsoddi fel rhan o gynigion Band B y Cyngor a bandiau yn y dyfodol o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. (Gweler y cyfeiriad at astudiaeth ddichonoldeb uchod). Dylai'r broses adleoli fod wedi'i chwblhau erbyn mis Ionawr 2019.

**A oes unrhyw ffederasiynau cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod neu gynlluniau i ffedereiddio?**

Nid oes unrhyw ffederasiynau cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, er bod hyn yn un o nifer o syniadau sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad Strategol a mentrau polisi cenedlaethol a rhanbarthol.

**Oes cynlluniau gennych i gynnal asesiad o'r angen am ragor o ofal plant/addysg cyfrwng Cymraeg? Ydych chi'n gweithio gydag awdurdodau lleol eraill i asesu'r angen?**

- Dechreuodd yr Arolwg o'r Galw ymhlith Dysgwyr ar 26 Medi 2016 a daeth i ben ar 19 Rhagfyr 2016. Bydd canlyniad yr arolwg hwn yn goleuo penderfyniadau ynglŷn â'r math cywir o ddarpariaeth a maint cywir y ddarpariaeth yn y lleoliad mwyaf priodol.
- Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno erbyn 31.3.2017. Bydd hwn yn nodi unrhyw fylchau a bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu wedyn. Dengys gwybodaeth ddiweddar fod dau leoliad gofal plant bach bellach yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg yn hytrach na'r model blaenorol fel darparwr cyfrwng Cymraeg; fodd bynnag, ychydig iawn o Gymraeg oedd yn cael ei siarad cyn y datblygiad hwn.

**Pryd gynhalioch chi asesiad addysg cyfrwng Cymraeg ddiwethaf yn unol â Rheoliadau 2013? Sut mae ei ganfyddiadau yn cael eu hadlewyrchu yn eich Cynllun?**

- Cyn yr arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar, cafodd yr Arolwg diwethaf o'r Galw ymhlith Dysgwyr ei gynnal ym mis Medi/Hydref 2013
- Cafodd y canfyddiadau eu hadlewyrchu yng nghynllun 2014-17 trwy adnabod yr angen i wella ansawdd addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gan barchu dymuniad rhieni i blant fod yn ddwyieithog yn hytrach na mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu holl bynciau o anghenraid. (Cydnabyddir ei bod yn anodd iawn i ddisgyblion fod yn ddwyieithog heb fynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bod angen codi ymwybyddiaeth rhieni o ganlyniadau ieithyddol gwahanol fodolau ieithyddol).
- Bydd yr arolwg diweddaraf yn goleuo penderfyniadau a wneir ynglŷn â maint unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, y math o ddarpariaeth a'i lleoliad.

**Sut ydych chi'n cynorthwyo rhieni/gwarcheidwaid plant oed meithrin anstatudol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg o ran trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg statudol?**

- Mae'r ALI yn cydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd PABM mewn perthynas â rôl cydweithwyr iechyd o ran sicrhau bod y Gymraeg yn ffocws o'r cyfle cynharaf i rieni; mae Cylchoedd Ti a Fi a gefnogir gan y Mudiad Meithrin (MM) a Dechrau'n Deg (DD) ledled y fwrdeistref lle mae croeso i famau beichiog ochr yn ochr â'r rhai â babanod a phlant bach. Cynigir grwpiau tylino babanod gan y MM a Cymraeg i Blant ac eto gall mamau beichiog fynychu'r rhain.

O fewn Dechrau'n Deg, eir ati'n rheolaidd o'r cyfle cynharaf i wneud rhieni'n ymwybodol o'r manteision sydd ar gael iddynt o'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys y cyfle i'w plentyn gael budd o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Mae'r holl rieni cyn geni yn y fwrdeistref yn cael gwybodaeth am y manteision sydd gan y Gymraeg i'w cynnig i'w plant gyda Cymraeg i Blant yn noddi gwybodaeth ar adeg sganiau a phan roddir llyfrau cofnod iechyd plentyn i'r holl blant.

- Mae'r ALI yn asesu'r data trosglwyddo er mwyn cael gwybod y niferoedd sy'n symud o leoliadau blynyddoedd cynnar i'r Cyfnod Sylfaen. Mae holiadur wrthi'n cael ei ddatblygu i ganfod meddyliau ac ystyriaethau rhieni ac ati. Mae cyfarfod yn yr arfaeth ar gyfer tymor yr hydref 2016 i ddatblygu trefniadau trosglwyddo mwy effeithiol ac ystyrlon.

**Sut ydych chi'n bwriadu darparu gwybodaeth ar gyfer rhieni ynglŷn â manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol?**

- Mae Penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi datblygu taflen mewn ymgynghoriad gyda'r Mudiad Meithrin a RhAG. Bydd yr ALI yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau a chylchredeg y gwaith hwn fel rhan o ymgyrch hyrwyddo, gan helpu i godi ymwybyddiaeth rhieni o ganlyniadau ieithyddol gwahanol fodolau ieithyddol.
- Mae Cymraeg i Blant hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer rhieni i gefnogi addysg Gymraeg – gweler Atodiad A am fanylion pellach.
- Yn ystod yr ymweliad 18 mis mae rhieni'r holl blant Dechrau'n Deg yn cael gwybodaeth am y cyfle i gael darpariaeth pan fo plant yn 2 oed trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny.

**Sut ydych chi'n sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael mynediad at ddarpariaeth drochi Gymraeg? Nodwch eich trefniadau ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg;**

- Bydd yr ALI yn darparu data mynediad ar gyfer proses dderbyn pob ysgol cyfrwng

Cymraeg y tu allan i dymor mis Medi maes o law. Ar hyn o bryd mae hwyrdyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi gan ysgolion unigol trwy wersi Cymraeg ychwanegol yn ystod cyfnod cofrestru a chael eu tynnu allan o rai gwersi ar gyfer cymorth un-i-un.

- Yn dilyn argymhellion yr adolygiad cyflym, nodwyd fod angen i Gonsortiw m Canol De Cymru ystyried a chynllunio ar gyfer trefniadau ar gyfer hwyrdyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg a bydd angen hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am y trefniadau hyn fel bod disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, lle y bo'n ofynnol.
- Ar hyn o bryd nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer hwyrdyfodiaid felly mae angen i drafodaethau ddiwydd ar draws y Consortiw m i adnabod opsiynau posibl. Mae cynnig wedi cael ei gyflwyno i Gyfarwyddwyr Addysg gyda'r nod o gynnal rhagor o ymchwil i ddichonoldeb sefydlu uned drochi ranbarthol. Mae'r datblygiad hwn mewn cyfnod cynnar iawn.

### **Sut fyddwch chi'n cynorthwyo neu'n arwain ysgolion yn eich sir i symud ar hyd y continwmm ieithyddol?**

- Mae naw Cylch Meithrin ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y mae saith ohonynt yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg:  
Cylch Meithrin Dechrau'n Deg Caerau \*\* DD yn unig  
CM Plant Bach Sarn \*\* Darparwr DD  
CM Cynwyd Sant Maesteg \*\* Darparwr DD  
CM Y Diwlith Garth \*\* Darparwr DD  
CM Tabernacl Bridgend \*\* Darparwr DD  
CM Porthcawl  
CM Pen-coed  
CM Gwdihw Bryntirion, Pen-y-bont\*\* Darparwr DD
- Caiff data'r MM ynghylch trosglwyddo o'r lleoliadau hyn i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ei ddadansoddi i sicrhau trosglwyddo effeithiol fel modd i gynnal parhad ieithyddol. (Gweler y pecyn data am y manylion) Mae Tîm Gofal Plant yr ALI yn gweithio i ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw rhai rhieni'n parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg ac i wella'r cyfraddau trosglwyddo lle nad ydynt eisoes yn 100%.

#### **Dechrau'n Deg – Cyfrwng Cymraeg**

- Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae 18 o ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg, y mae 7 ohonynt yn Gylchoedd Meithrin sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sef:

#### **Dechrau'n Deg yn unig**

Dechrau'n Deg Caerau

#### **Economi gymysg** (yn cynnig DD a lleoedd i blant y tu allan i DD):

Cylch Meithrin Sger Gogledd Corneli  
Cylch Meithrin Cynwyd Sant Maesteg  
Cylch Meithrin Y Diwlith Maesteg  
Cylch Meithrin Tabernacl Bridgend  
Cylch Meithrin Plant Bach Sarn  
CM Gwdihw Bryntirion, Pen-y-bont

- **Cynorthwyo lleoliadau Dechrau'n Deg i gefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Mae'r holl deuluoedd sy'n derbyn y rhaglen Dechrau'n Deg yn llwyr ymwybodol o'r



gallu i gael Gofal Plant Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwybodaeth ar gael i deuluoedd yn ystod yr ymweliad 18 mis ynghylch yr opsiynau ar gyfer gofal plant ac mae rhieni'n amlwg yn ymwybodol y bydd DD yn cynorthwyo'r rhiant i gael mynediad at ei ddewis ofal plant.

Mae sesiynau iaith a chwarae a gynigir i rieni'n cynnwys ffocws cryf ar ddwyieithrwydd ac mae dylanwad cryf ar rieni i gofleidio'r diwylliant Cymraeg yn llawn trwy rigymau a chaneuon sy'n galluogi rhieni i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn y cartref ac mewn bywyd pob dydd.

Yn y pecyn DD 18 mis i rieni mae teuluoedd yn cael gwybodaeth a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan Twf sy'n nodi manteision defnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd i blant bach.

Mae Dechrau'n Deg a Thîm Gofal Plant CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Mudiad Meithrin i alluogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir i fod yn gryf ac effeithiol gyda ffocws ar ansawdd y ddarpariaeth a chefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn llwyddiannus a hyrwyddo manteision profiad cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar i'w plant ymhlith rhieni.

Mae Dechrau'n Deg yn estyn hyn ymhellach o ran cefnogi a chyllido Cylchoedd Ti a Fi mewn ardaloedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a adnabuwyd gan y MM fel rhai a dargedir ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Mae DD yn cyllido costau staff a chostau llogi ystafelloedd i alluogi'r ddarpariaeth hon i symud ymlaen.

Mae rhai aelodau o'r tîm DD yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac mae gan dîm y blynyddoedd cynnar yn ei gyfanrwydd ffocws cryf ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ac yn ystyrlon, tra bo niferoedd isel o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn y tîm iechyd. Mae'r tîm DD hefyd yn elwa o'r hyfforddiant sydd ar gael i staff CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac yn rhoi ffocws ar gynyddu ein defnydd o'r Gymraeg gyda theuluoedd mewn sefyllfaoedd pob dydd ochr yn ochr â'r ffocws presennol yn y lleoliadau gofal plant DD.

Mae DD Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ei hun yng Nghaerau lle nad oedd un i'w chael ar ddechrau'r rhaglen.

Yng Ngham 2 DD ers ehangu mae ffocws cryfach ar weithio gyda'r grwpiau sydd eisoes yn bodoli, gan alluogi DD i gefnogi cynaliadwyedd y grwpiau.

Mae'r bartneriaeth effeithiol hon yn helpu i alluogi'r holl leoliadau blynyddoedd cynnar ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gynnig y profiad gorau un i'n dysgwyr ifainc. Mae darparwyr yn cael eu cefnogi â ffocws ar ganlyniadau ac yn cael cynnig cyfleoedd i dyfu a datblygu.

O fewn y tîm yn DD Pen-y-bont ar Ogwr mae dealltwriaeth glir am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg; caiff ei drafod ac mae'n eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod. Mae gan y tîm DD ddealltwriaeth glir am yr angen i'r ALI fod yn ymrwymedig i gynorthwyo rhieni i ddeall a chael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn.

- **Trefniadau pontio o leoliadau nas cynhelir i sefydliadau meithrin.**

Mae Dechrau'n Deg wedi datblygu trefniadau pontio effeithiol o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i leoliadau addysg feithrin ar gyfer yr holl blant DD. Mae 80% o

ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn mynychu'r cyfarfodydd pontio tymhorol hyn a arweinir gan DD; mae darparwyr ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn mynychu'r rhain yn rheolaidd. Yn nhymor yr haf 2017, bydd y lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cwrdd i ddatblygu'r berthynas agos ac effeithiol hon o ran cynlluniau pontio ymhellach. Mae Rheolwr y Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Phenaeithiaid ysgolion o'r sector cyfrwng Cymraeg yn datblygu polisi pontio ar gyfer yr holl ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gan ddefnyddio'r polisi pontio DD fel templed mae'r ALI yn cydnabod yr angen i fod yn fwy effeithiol o ran cefnogi'r broses bontio hollbwysig hon er mwyn cyrraedd y targedau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac i ddangos yr ymrwymiad sy'n amlwg yn yr ALI.

Cefnogir y gwaith hwn gan gydweithwyr o Gonsortium Canol De Cymru ac mae wedi bod yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda'r bwriad y bydd y polisi yn ei le ar gyfer mis Medi 2017. Mae gan y Tîm Gofal Plant yn y Fwrdeistref berthynas hirsefydlog gyda'r sector cyfrwng Cymraeg ac mae'n gallu adeiladu ar hyn i sicrhau bod y cymorth i'r sector yn effeithiol ac yn gydlynol gyda chymorth mewn perthynas a phroffesiynoldeb ac ansawdd yn gryfder gwirioneddol.

Cefnogodd y MM ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â phontio yn ddiweddar ym Mhorthcawl rhwng y gymuned ym Mhorthcawl, y darparwr lleol ac Ysgol y Ferch o'r Sger. Mae yn dystiolaeth amlwg bod y ffocws ar bontio effeithiol yn realiti yn y Fwrdeistref.

Yn ychwanegol at y gwaith hwn mae'r Tîm Gofal Plant yn datblygu holiadur i rieni i ganfod y rhesymau dros ddewisiadau trosglwyddo ac i ystyried sut y gallwn gynyddu'r gyfradd trosglwyddo o addysg y blynnyddoedd cynnar i'r sector ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

- Mae'r ALI wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau eraill i ddatblygu strategaeth i helpu i gadw plant yn y sector cyfrwng Cymraeg tan ddiwedd eu haddysg ffurfiol. Bydd y continwmm ieithyddol yn cael ei ystyried ym mhob un o ffrydiau gwaith perthnasol yr Adolygiad Strategol hefyd.

**Nodwch unrhyw gynlluniau sydd gennych i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog/dwy ffrwd.**

- Mae hyn yn rhan o'r Cynllun Moderneiddio dan Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac yn benodol y gwaith dichonoldeb sy'n cael ei wneud ar y prosiect cyfrwng Cymraeg (a ddisgrifiwyd uchod). Mae canlyniadau'r Arolwg o'r Galw ymhlith Dysgwyr yn goleuo'r gwaith cynllunio hwn.

**Ehangu'r ddarpariaeth**

Beth yw canran y plant saith oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd?

**Data a Gofnodwyd yn y CYBLD Ion 16**

Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg	Nifer y disgylion ar y gofrestr	Cyfanswm y disgyblion ar y gofrestr ar draws holl Ysgolion Cynradd CBS Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys rhai Cyfrwng Cymraeg	% y disgyblion a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf):
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	44		

YGG Cwm Garw	21		
YGG Cynwyd Sant	43		
Ysgol y Ferch o'r Sger	28		
	<b>136</b>	<b>1602</b>	<b>8.5%</b>

Rhowch eich sefyllfa bresennol o ran nifer y plant saith mlwydd oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'ch targedau am y tair blynedd nesaf.

	Y Sefyllfa Bresennol (lon 16)	lon 17	lon 18	lon 19	lon 20
Targed (Cynnydd o 12.3% rhwng 2017 a 2020)	136	141	145	152	158

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deiliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).**

1. Hyrwyddo gwerth addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog trwy'r Urdd a thrwy ymgyrchoedd hyrwyddo
2. Cynyddu'r cyfraddau trosglwyddo o'r ysgolion meithrin nas cynhelir i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg **yn ôl cyfradd o 5%**
3. Cynyddu'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd â'r galw mwyaf, gan ymateb i ganlyniadau'r Arolwg o'r Galw ymhlith Dysgwyr a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a chysylltu â Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif (E.e. dosbarth dechreuol o ddisgyblion)
4. Cynyddu cyfraddau cadw yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 **yn ôl cyfradd o 10%**.

**Datganiad Ategol:**

Mae bwrdd y Prosiect Cyfrwng Cymraeg wedi dod i'r casgliad y dylid mabwysiadu dull tymor byr, canolig a hir o ddiwallu'r angen am leoedd cyfrwng Cymraeg yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Gallai hyn ddatblygu trwy ddarparu dosbarth dechreuol lle ceir y galw mwyaf (a nodwyd trwy'r arolwg o'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg) gan felly greu lleoedd cynradd ychwanegol a bydd yn ystyried y ffaith mai dim ond un ysgol uwchradd sydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a honno wedi'i lleoli yng ngogledd y fwrdeistref sirol yn hytrach na'i bod mewn lleoliad canolog.

Mae systemau yn eu lle i fonitro nifer y plant sy'n trosglwyddo o ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ffigyrau a ddarparwyd yn lleol a chan y Mudiad Meithrin; mae holiadur yn cael ei ddatblygu i archwilio prosesau penderfynu rhieni pan fo'u plentyn yn symud o'r Blynnyddoedd Cynnar i leoliad Cyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg. Mae partneriaid wedi datblygu taflen wybodaeth i ysgogi galw a chynorthwyo rhieni i wneud eu penderfyniad, ac mae'r daflen honno'n ymdrin â manylion mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a goblygiadau dewis y ddarpariaeth honno. Ceir ymrwymiad clir yn y fwrdeistref i ddatblygu cysylltiadau effeithiol rhwng y Cylchoedd Meithrin, Tîm Gofal Plant CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Tîm Blynnyddoedd Cynnar Consortiwm Canol De Cymru ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg; ymrwymiad clir i roi cymorth i sicrhau bod unrhyw ofal plant a gyllidir dan y rhaglen Dechrau'n Deg (DD) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg gyda'r ddwy arlwy'n cael eu hyrwyddo i'r un graddau. (Cynigir gwybodaeth ychwanegol yn ystod yr ymweliad 18 mis i alluogi rhieni i ddeall yr arlwy cyfrwng Cymraeg yn effeithiol); mae cydweithwyr o'r Mudiad Meithrin a Chonsortiwm Canol De Cymru'n gweithio gyda'r Cylchoedd i'w galluogi i ymateb yn gadarnhaol i ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg a'r awydd i roi cymorth i godi safonau yn y Cylchoedd yn enwedig y dull trochi.

Mae gwaith yn yr arfaeth hefyd i ddatblygu cysylltiadau cyn-geni, a gefnogir trwy gofnodion iechyd a sganiau mamau yn y cyfnod cyn geni.

Mae Cymraeg i Blant yn noddi'r ffolder nodiadau mamolaeth Cymru gyfan y bydd pob mam newydd yn ei gael a'r cerdyn sgan 12 wythnos. Ar ben hynny bydd y cofnod iechyd plentyn o fis Ionawr 2017 yn cael ei noddi gan Cymraeg i Blant hefyd.

Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r ALI wedi ymrwymo i'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Band B. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto faint o gyllid sydd ar gael i ALLau ac felly'r cyllid y mae'n ofynnol i'r ALI ei neilltuo (cyllid cyfatebol). Fodd bynnag, mae'r ALI wedi rhoi rhestr i Lywodraeth Cymru o gynlluniau blaenoriaeth y bwriedir symud ymlaen gyda hwy os ceir yr ymrwymiad hwnnw. Mae o leiaf un o'r cynlluniau hyn yn debygol o ddarparu lleoedd cynradd ychwanegol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd gwaith cynllunio ar gyfer Band C y rhaglen yn digwydd yn ystod Band B i ddatblygu strategaeth i sicrhau lleoedd digonol gyda thwf yn y lleoliad cywir yn y fwrdeistref sirol a chydag ALLau cyfagos.

Mae model gwella Canol De Cymru'n seiliedig ar ymarferwyr arbenigol yn darparu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer eu cymheiriaid a chyda hwy. Darperir y rhaglenni hyn mewn 'hybiau' mewn ysgolion, ac maent ar gael i'r holl ymarferwyr; neu maent yn ffocws i waith Grwpiau Gwella ysgolion (SIGS – grwpiau bach o ysgolion sy'n cydweithio ar angen datblygu a adnabuwyd). Caiff y gwaith hwn ei gyllido gan y Consortiwm a chaiff ei fapio yn erbyn anghenion rhanbarthol. Hefyd, mae'r rhanbarth yn cydweithio'n agos gyda'r rhwydwaith ysgolion arloesi Dyfodol Llwyddiannus.

Gan ddefnyddio'r model hwn, bydd y Consortiwm rhanbarthol yn cefnogi'r continwmm ieithyddol trwy wneud y canlynol:

- Cyllido a chefnogi rhaglenni dysgu proffesiynol yn ôl anghenion rhanbarthol (yn enwedig mewn perthynas â datblygu'r gweithlu a gwella sgiliau iaith ymarferwyr)
- Cefnogi gwaith y rhwydwaith ysgolion arloesi wrth iddynt weithio ar fanylion y continwmm Cymraeg.

Mae hwn yn faes a fydd yn datblygu'n sylweddol yn ystod oes y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol wrth i fanylion y cwricwlwm ddod yn gliriach. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnwys:

Hyfforddiant iaith Gymraeg Dwys (Lefel Sylfaenol)

Hyfforddiant iaith Gymraeg Dwys (Lefel Ganolradd)

Mae effaith model hwb a Grwpiau Gwella Ysgolion Canol De Cymru'n destun rhaglen ymchwil a gwerthuso a fydd yn cynnal ymarfer allanol i fonitro effaith y ddarpariaeth ar ymarferwyr a dysgwyr.

**Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.**

*Mae a wnelo'r deilliant hwn â gwella'r niferoedd sy'n trosglwyddo o;*

- a) *Addysg feithrin nas cynhelir a gyllidir i addysg feithrin a gyllidir;*
- b) *Y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol Dau;*
- c) *Cyfnod Allweddol Dau i Gyfnod Allweddol Tri; a*
- d) *Cyfnod Allweddol Tri i Gyfnod Allweddol Pedwar*

Fel a nodwyd uchod, mae gwaith ar y gweill i wella'r cyfraddau trosglwyddo rhwng darpariaeth feithrin nas cynhelir ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a rhwng cyfnodau addysg wedi hynny. Mae dadansoddiad o'r data'n datgelu bod gostyngiad yng nghanran y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r cyfnodau addysg ac mae hyn wedi arwain at ymchwiliad i gadw niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Caiff y cyfraddau dilyniant eu nodi isod (ac yn y ffeil ddata):

- Dilyniant rhwng lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen:

	<b>Nifer a drosglwyddodd i addysg cyfrwng Cymraeg</b>	<b>% a drosglwyddodd i addysg cyfrwng Cymraeg</b>	<b>Nodiadau</b>
Cynwyd Sant	15	100%	
Lôn y Parc	7	100%	
Bryntirion	1	10.00%	Cynnydd yn cael ei wneud. Wrthi'n cydweithio'n agos gyda staff a rhieni ar barhad a manteision addysg cyfrwng Cymraeg.
Nant-y-moel			Ysgol feithrin wedi'i chau
Pen-coed	24	60.00%	
Sarn	7	33.33%	Cynnydd yn cael ei wneud. Wrthi'n cydweithio'n agos gyda staff a rhieni ar barhad a manteision addysg cyfrwng Cymraeg.
Porthcawl	3	9.68%	Cynnydd cadarnhaol yn y drefn o'i gymharu â'r llynedd ond mae'n anffodus nad yw llawer o rieni'n dymuno anfon eu plant i'r ysgolion Cymraeg lleol sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd difreintiedig.
Y Tabernacl	2	10.00%	
Y Diwlith	13	92.86%	
Y Sger	19	79.17%	

Fel a nodi r yn y tabl au canl yno l , ceir gost yngi ad aml wg yn nife roe dd y disg ybli on sy'n sym ud o un cyfn

od allweddol i'r nesaf. Mae ymchwiliadau wedi datgelu bod y gostyngiad wedi digwydd yn

bennaf o ganlyniad i drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i lunio strategaeth i gadw a thyfu'r niferoedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae wedi ystyried rhesymau a roddir am drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn o addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhesymau dros symudiadau i ysgolion cyfrwng Saesneg yn amrywio o ddiffyg ymateb i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddisgyblion i anallu rhieni i allu cefnogi dysgu eu plentyn, mynediad at gymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a materion o ran y berthynas rhwng disgyblion yn yr ysgol. Mae'r rhain yn ffactorau sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu 'Strategaeth Twf a Chadw' ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Mae materion sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol/cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi cael eu hadolygu trwy'r Adolygiad ADY sydd wedi rhoi sylw i'r materion a godwyd – fel a nodir yn Neilliant 6 isod.

Bu gwaith rhwng y clwstwr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i wella'r gyfradd trosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ymhellach.

- Dilyniant rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2:

Ffynhonnell y Data: CYBLD

	<b>Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 2 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg</b>		<b>Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 3 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg</b>	<b>% y Gwahaniaeth</b>
<b>lon 13</b>	139	<b>lon 14</b>	135	-2.9%
<b>lon 14</b>	140	<b>lon 15</b>	135	-3.6%
<b>lon 15</b>	157	<b>lon 16</b>	149	-5.1%

- Dilyniant rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3:

Ffynhonnell y Data: CYBLD

	<b>Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 6 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg</b>		<b>Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg</b>	<b>% y Gwahaniaeth</b>
<b>lon 13</b>	90	<b>lon 14</b>	84	-6.7%
<b>lon 14</b>	126	<b>lon 15</b>	114	-9.5%
<b>lon 15</b>	115	<b>lon 16</b>	108	-6.1%

- Dilyniant rhwng Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4:

Ffynhonnell y Data: CYBLD

	<b>Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 9 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg</b>		<b>Nifer y disgyblion ym mlwyddyn 10 mewn ysgol cyfrwng Cymraeg</b>	<b>% y Gwahaniaeth</b>
<b>lon 13</b>	89	<b>lon 14</b>	83	-6.7%
<b>lon 14</b>	103	<b>lon 15</b>	98	-4.9%
<b>lon 15</b>	108	<b>lon 16</b>	109	0.9%

**Y sefyllfa bresennol a'r targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf o ran nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg (laith Gyntaf)**

Y Sefyllfa Bresennol (lon 16)	Targed lon 17	Targed lon 18	Targed lon 19	Targed lon 20*
-------------------------------	---------------	---------------	---------------	----------------

77	111	116	109	125
----	-----	-----	-----	-----

\* Mae'r targedau'n seiliedig ar niferoedd y plant sydd mewn cohortau addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd gan arwain i fyny at Flwyddyn 9 erbyn 2020. (Disgwyllir y bydd y cynnydd mewn newydd-ddyfodiaid i Addysg Cyfrwng Cymraeg ar ddechrau addysg y plentyn/plant yn hytrach na disgyblion ychwanegol sy'n hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ychwanegu at gohortau presennol). Mae gwaith ar y gweill i lunio a gweithredu strategaeth i roi cymorth i gadw niferoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy gydol y flwyddyn academaidd. Bu cynnydd mawr mewn niferoedd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2017 oherwydd un cohort bach sydd wedi bodoli ar gyfer y flwyddyn ysgol hon ers lefel ysgol gynradd. Mae'r ffigur yn gwastatau wedi hynny gan ei fod yn seiliedig ar niferoedd cyfredol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y cohortau cyn blwyddyn 9. Ni ddisgwyllir y bydd llawer o ddisgyblion Cymraeg yn cyrraedd yn ystod y cyfnod hwn yn eu haddysg. Mae'r targedau'n seiliedig ar gyfradd o 100% o ran cadw'r niferoedd sydd yn y system ar hyn o bryd.

### Tueddiadau hanesyddol o ran asesu disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg:

(o'r pecyn data)

Canran gyfredol y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg (laith Gyntaf):

#### Data a gofnodwyd yn y CYBLD Ion 16

	Nifer y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd CA3 mewn Cymraeg laith 1af	Cyfanswm y disgyblion ar draws holl ysgolion uwchradd CBS Pen-y-bont ar Ogwr a aseswyd ar ddiwedd Cohort CA3	% y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol gan gael Asesiad Athro mewn Cymraeg (laith Gyntaf)
YGG Llangynwyd	77	1475	5.22

Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg (laith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach?

#### Data a gofnodwyd yn y CYBLD Ion 13

	Nifer y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd CA2 mewn Cymraeg laith 1af	Cyfanswm y disgyblion ar draws holl ysgolion uwchradd CBS Pen-y-bont ar Ogwr a aseswyd ar ddiwedd Cohort CA2	% y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol gan gael Asesiad Athro mewn Cymraeg (laith Gyntaf):
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	29		
YGG Cwm Garw	10		
YGG Cynwyd Sant	25		
Ysgol y Ferch o'r Sger	27		
	91	1445	6.30

Addysgir yr holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn YGG Llangynwyd.

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deiliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).**

1. Cynyddu'r gyfradd trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd
2. Llunio a gweithredu strategaeth i roi cymorth i gadw **10%** o'r niferoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy gydol y flwyddyn academaidd erbyn haf 2018
3. Adolygu'r ddarpariaeth ADY i gefnogi disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo gyda chynyddu a chadw disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
4. Defnyddio canlyniadau'r adolygiad strategol i lunio strategaethau i wella sgiliau iaith pan fo disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgolion gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Datganiad Ategol:**

Mae'r ALL wedi cynnal ymchwiliad i niferoedd y disgyblion sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg trwy gydol y flwyddyn academaidd ac mae'n gweithio i ddatblygu strategaeth 'Twf a Chadw' i roi cymorth i gadw niferoedd. (Disgwylir y bydd hon yn cael ei chwblhau ac y bydd ar gael erbyn haf 2018). Nodwyd nad yw plant yn trosglwyddo o ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r Tim Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn gweithio i fynd i'r afael ag ef mewn ymgynghoriad â'r lleoliadau a'r ysgolion. Rhoddwyd blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r niferoedd mawr (a chynyddol) o bob oed sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn cydweithio'n agos gydag ysgolion a grwpiau rhieni i ddeall y rhesymau dros y trosglwyddiadau hyn ac mae wrthi ar hyn o bryd yn llunio strategaeth i gynyddu a chadw niferoedd yn y sector hwn, gan fynd i'r afael â nifer o'r pryderon a godwyd – gan gynnwys cymorth i rieni sy'n teimlo nad ydynt yn gallu cefnogi dysgu eu plant ac adolygu'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Bydd yr ALL yn parhau i ddatblygu ei waith gydag ymyrraeth gynnar o ran y disgyblion hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gyfradd trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i'r ysgol uwchradd Gymraeg yn cael ei monitro'n barhaus gan y clwstwr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae trefniadau pontio wedi'u sefydlu i gynnal a chynyddu'r gyfradd trosglwyddo. Mae'r awdurdod lleol yn archwilio sut y mae disgyblion a oedd yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynorthwyo i barhau â'r iaith os/pan ydynt yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Bydd yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn mabwysiadu'r Siarter Iaith sydd wedi'i bwriadu i wella'r defnydd o Gymraeg achlysurol o fewn a'r tu allan i'r ysgol o fis Mawrth 2017.



### Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

#### Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg

	Y Ganran Gyfredol 2015-16	2016- 17	2017- 18	2018- 19	2019- 20
--	------------------------------------	-------------	-------------	-------------	-------------

**Mesur 3.1: Cynnal canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio ar gyfer o leiaf ddau gymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg ar 100% erbyn 2020 (Sylwer nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny â datganiadau penodol o AAA).**

90.2%	100%	100%	100%	100%
-------	------	------	------	------

**Mesur 3.2: Cynyddu canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) sy'n astudio ar gyfer o leiaf bum cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg 3% i 95% erbyn 2020 (Sylwer nad yw hyn yn cynnwys y plant hynny â datganiadau penodol o AAA).**

100%	100%	100%	100%	100%
------	------	------	------	------

*Ffynhonnell: Consortiwm Canol De Cymru – Cyflenwad data CA4 2016*

### Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

	Y Ganran Gyfredol 2015-16	2016- 17	2017- 18	2018- 19	2019- 20
--	------------------------------------	-------------	-------------	-------------	-------------

**Mesur 4.1: Cynyddu canran y dysgwyr 17 oed sy'n astudio 2**

**bwnc neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg 4% erbyn 2020.**

100%	100%	100%	100%	100%
------	------	------	------	------

*Ffynhonnell: Consortiwm Canol De Cymru – Cyflenwad data CA4 2016*

### Beth yw targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r ganran hon? Gellir mynegi hyn naill ai fel targedau blynyddol neu fel un targed ar ddiwedd y Cynllun

Nid oes targed i gynyddu'r ganran hon yn ystod oes y cynllun (2017-2020) gan y bydd y ffigyrau'n cael eu pennu gan y boblogaeth bresennol sydd ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 ar hyn o bryd a chan y rhai sydd eisoes yn yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol. Disgwylir y bydd y targedau ar gyfer cynyddu nifer y plant sy'n mynd i mewn i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (Deilliant 1) yn dechrau effeithio ar ffigyrau CA4 a CA5 wrth i'r plant hyn symud ymlaen trwy'r ysgolion, e.e. bydd plant sy'n dechrau mewn dosbarth derbyn ym mis Medi 2017 yn cyrraedd blwyddyn 11 erbyn 2028. Yn yr un modd gall y strategaeth i gadw disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ddechrau effeithio ar ffigyrau Blwyddyn 11 o fis Medi 2021 ar y cynharaf.


Mae'r cyrsiau galwedigaethol ôl-16 sy'n rhedeg yn YGG Llangynwyd ac mewn cydweithrediad gydag YGG Llanhari fel a ganlyn: cymwysterau BTEC mewn Busnes, Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus. Ceir BTEC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mlwyddyn 13 mewn cydweithrediad gyda Choleg Pen-y-bont hefyd. Caiff yr holl gyrsiau hyn eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Deiliant 4 – Cynnal a chynyddu ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, 16-19:**

- Mae partneriaeth weithio a threfniadau cydweithio agos gydag YGG Llanhari yn RhCT sy'n dwyn cost o oddeutu £25,000 ar gyfer cludiant – a rennir rhwng y ddwy ysgol.
- Ar hyn o bryd mae 8 cwrs Uwch Atodol cydweithredol ym Mlwyddyn 12 a 10 cwrs A2 cydweithredol ym Mlwyddyn 13.
- Ar y cyfan mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn gallu amserlennu 23 o gyrsiau ym Mlwyddyn 12 a 26 o gyrsiau ym Mlwyddyn 13 a Bagloriaeth Cymru (a chan gynnwys 4 cwrs galwedigaethol). Mae hyn yn cymharu â 30 o gyrsiau Lefel 3 a 5 cwrs galwedigaethol a gynigir yn unol â'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

Gan ddefnyddio canlyniadau data ysgolion i wella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg:-

- Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal adolygiad blynyddol o ddarpariaeth ôl-16 gyda phob Chweched Dosbarth gan gynnwys Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
- Mae'r safonau perfformiad yn y Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol yn cael eu monitro a'u trafod gyda'r ysgol. Fel y gellir gweld o'r graff isod mae perfformiad mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhell uwchlaw cyfartaleddau'r ALI a Chymru



- Hefyd, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio data gwerth ychwanegol Alps i adolygu perfformiad cymharol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn erbyn darpariaeth arall cyfrwng Saesneg yn lleol ar draws CBS Pen-y-bont ar Ogwr a ledled Cymru a Lloegr:
  - Mae safon gyfredol Cymraeg Iaith 1<sup>af</sup> Safon Uwch yn “dda”
  - Mae safon Cymraeg 2<sup>il</sup> Iaith Safon Uwch yn foddhaol fwy neu lai
  - Mae perfformiad gwerth ychwanegol Ysgol Gyfun Gymraeg

Llangynwyd ar y cyfan yn “rhagorol” ac ar hyn o bryd mae yn y 3<sup>yd</sup> safle ar y mesur hwn o'i chymharu â'r naw lleoliad chweched dosbarth yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr

- Mae'r sgoriau gwerth ychwanegol ar gyfer pynciau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wedi gwella'n sylweddol rhwng 2015 a 2016 gyda pherfformiad arbennig o ragorol neu neilltuol yn y canlynol: TGCh Gymhwysol, Llenyddiaeth Saesneg, Daearyddiaeth, Mathemateg, Cerddoriaeth, Seicoleg, Astudiaethau Crefyddol, Bagloriaeth Cymru.

### Detholiad o Adroddiad Monitro Blynyddol Coleg Pen-y-bont i Gomisiynydd y Gymraeg:

#### Proffil Ieithyddol Dysgwyr yng Ngholeg Pen-y-bont 2015-2016

Math o Ddysgwr	Nifer y cofrestrïadau ar y cyfan 2015-2016	Nifer y myfyrwyr Cymraeg	Nifer y myfyrwyr Cymraeg fel %
AB Llawn-amser	2555	153	6%
AB Rhan-amser	3132	78	2.5%
AU Llawn-amser	442	40	9%
AU Rhan-amser	151	42	8%
CYFANSWM	6280	313	5%

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel ac yn nodweddiadol nid oes siaradwyr Cymraeg o gwbl neu mae 1 neu 2 o fyfyrwyr ym mhob grŵp o 18 o fyfyrwyr cyfrwng Saesneg ar gyfartaledd. Yn sgîl y niferoedd isel o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith, nid oes unrhyw fyfyrwyr yn astudio'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, fe gwblhaodd 500 o ddysgwyr y cwrs galwedigaethol Gofal Cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg Iaith ar Waith (485 ar Lefel Mynediad a 31 ar Lefel 2) yn ystod 2015-2016 yn ychwanegol at eu prif gymwysterau.

#### Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deiliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ac felly cynyddu nifer y cofrestrïadau ar gyfer arholiadau.
- Adolygu a chynyddu'r cyfleoedd Ôl-16 cyfrwng Cymraeg
- Cynnwys sôn penodol am ddarpariaeth Gymraeg mewn adroddiad cyngori i'r Cabinet erbyn mis Gorffennaf 2017 sy'n nodi opsiynau yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth Ôl-16 ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo argymhelliad y Bwrdd Ôl-16 i greu cynigion penodol mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

#### Datganiad Ategol:

Mae nifer y disgyblion 14-16 sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddibynnol ar niferoedd y bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3; gan gyfeirio at gynyddu ystod y ddarpariaeth TGAU cyfrwng Cymraeg mae pwysau sy'n deillio o gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn CA4, cwrs llawn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn ychwanegol at Saesneg, y TGAU Mathemateg Ddwbl newydd a dangosydd perfformiad y 9 gorau yn CA4 (sy'n cynnwys dwy o'r gwyddorau). Mae'r rhain i gyd yn arwain at bwysau i leihau nifer yr opsiynau sydd ar gael yn CA4 a nifer y

pynciau o fewn yr opsiynau hynny. Er bod cydweithio rhwng ysgolion ar lefel Ôl-16 o gymorth i gynnal ehangder y cwricwlwm ni ddangoswyd eto ei fod yn ymarferol yn CA4. Os bydd Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn gwneud unrhyw benderfyniadau i leihau nifer y pynciau yn CA4 yna bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar hyfywedd y pynciau hynny ar lefel Ôl-16 ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Daw Cymraeg Ail Iaith yn orfodol o fis Medi 2017 ac anogir pobl ifanc i barhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chynnal eu hiaith – ‘defnyddiwch hi neu fe gollwch hi’.

### **Detholiad o Adroddiad Monitro Blynyddol Coleg Pen-y-bont i Gomisiynydd y Gymraeg:**

‘Bu Coleg Pen-y-bont yn gweithio mewn partneriaeth yn flaenorol. Tan yn ddiweddar roedd Grant y Rhwydwaith 14-19 yn galluogi gwaith mewn partneriaeth gydag Ysgol Gyfun Llanhari ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd i ffynnu. Cafodd ystod o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn Adeiladu, Cerbydau Modur ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu darparu’n llwyddiannus. Roedd y cyllid grant yn galluogi’r coleg a’r ysgol i redeg gyda niferoedd bach o ddysgwyr a oedd yn cael budd mawr o gael gwersi galwedigaethol arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Pen-y-bont. Bydd y cwrs presennol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ddarperir mewn partneriaeth yn dod i ben ym mis Mehefin 2017 ac mae’r cyrsiau mewn Adeiladu a Cherbydau Modur wedi cael eu colli hefyd. Ar hyn o bryd nid oes twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, felly mae cynllunio’r ddarpariaeth ar lefel AB yn dal i fod yn her.’

Mae’r Bwrdd Gweithredol Ôl-16 yn paratoi papur cynghori ar gyfer y Bwrdd Adolygu Strategol i oleuo papur i’r Cabinet erbyn mis Gorffennaf 2017 a’r disgwyl yw y bydd y broses weithredu’n dechrau o 2019 ymlaen.

### **Mewnbwn gan y Consortiwm:**

Mae gwaith ysgol i ysgol yn y maes hwn wedi’i fwriadu i ymateb i’r angen dynodedig yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae eu rhaglen ar gyfer 2016/17 yn cynnwys rhaglenni sydd wedi’u bwriadu i wella sgiliau ymarferwyr i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a sgiliau llafaredd dysgwyr. Mae rhaglenni’n cynnwys:

- Gwella iaith ar gyfer Arweinwyr – llunio a gweithredu cynllun mewn ysgolion
- Llafaredd ar draws y cwricwlwm – datblygu sgiliau llafaredd disgyblion a’u hyder yn hynny o beth
- Hyfforddiant i rai nad ydynt yn arbenigwyr sydd wedi’i fwriadu i gynyddu nifer yr athrawon gwyddoniaeth i addysgu pynciau heblaw am eu prif arbenigedd.

### **Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr sydd â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

#### ***Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr sydd â sgiliau uwch yn y Gymraeg***

*Mae’r deilliant hwn yn canolbwyntio ar godi safonau a gwella cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith. Gofynnir i awdurdodau lleol ddangos sut y bydd ysgolion yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr sy’n ennill cymwysterau Safon Uwch mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.*

*Ystyriwch sut y mae dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer y gweithle ac unrhyw oblygiadau sy’n deillio o ddatblygu economaidd a chymunedol a’r effeithiau y gallai hynny eu cael ar gynllunio’r gweithlu a sgiliau. Mae’r datblygiadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, yr orsaf niwclear newydd arfaethedig ar Ynys Môn, Wylfa Newydd, y carchar newydd yn Wrecsam a phrosiect y Morlyn Ilanw yn Abertawe.*

*Nodwch y cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg mewn*

*lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid a rhanddeiliaid cymunedol eraill. Mae gan y Fforwm rôl arwyddocaol yn y maes hwn ond cyfeiriwch at is-grwpiau eraill neu drefniadau cydweithio gyda'r Urdd, Ffermwyr Ifainc, y Fenter Iaith a phartneriaid cymunedol eraill.*

Cyfeiriwch at Atodiad 1 ar gyfer y data y mae angen i chi ei ddarparu ar gyfer y Deilliant hwn.

Cynhwyswch y canlynol:

- *Sut y byddwch yn gwella safonau llythrennedd mewn Cymraeg;*
- *Pa gamau gweithredu, datblygiadau a/neu fentrau sy'n cael eu cyflawni neu sydd yn yr arfaeth i alluogi'r awdurdod i gyrraedd y targedau hyn;*
- *Beth yw eich strategaethau i barhau i wella ansawdd yr holl ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg; a*
- *Sut y byddwch yn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol yn unol â fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru (a fydd yn cael ei rannu gydag awdurdodau lleol ym mis Medi 2016). Dylai hyn gynnwys mapio anghenion plant a phobl ifanc mewn cydweithrediad gyda'r gwasanaethau ieuenctid a rhanddeiliaid allweddol.*
- *Gweithredu'r rhaglen genedlaethol (Y Siarter Iaith a'r prosiect Cefnogi Arferion Pobl Ifanc) yn eich ysgolion.*


#### **Gwella'r ddarpariaeth a safonau mewn Cymraeg iaith Gyntaf**

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 y Cyfnod Sylfaen mewn iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwysieithog?

#### **Ffynhonnell y Data: Perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr ar Lefel ALI yn Set Ddata Graidd Cymru Gyfan**

<b>Blwyddyn Academaidd</b>	<b>Pen-y-bont ar Ogwr</b>	<b>Cyfartaledd Cymru</b>
<b>11/12</b>	87.33%	85.93%
<b>12/13</b>	91.97%	86.73%
<b>13/14</b>	91.37%	89.82%
<b>14/15</b>	95.42%	91.34%
<b>15/16</b>	92.5%	90.7%

**Canran y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 y Cyfnod Sylfaen mewn iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwysieithog**




Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gyson yn uwch na Chyfartaledd Cymru. Y gwahaniaeth cyfartalog dros y cyfnod hwn rhwng perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr a pherfformiad Cymru Gyfan yw 2.8%

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athro mewn Cymraeg?

**Ffynhonnell y Data: Perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr ar Lefel ALI yn Set Ddata Graidd Cymru Gyfan**

Blwyddyn Academaidd	Pen-y-bont ar Ogwr	Cyfartaledd Cymru
10/11	94.39%	82.02%
11/12	88.46%	83.97%
12/13	93.41%	86.71%
13/14	90.48%	88.1%
14/15	94.74%	90.46%
15/16	94.3%	90.8%

**Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athro mewn Cymraeg**



Dros y 6 blynedd ddiwethaf mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gyson yn uwch na Chyfartaledd Cymru. Y gwahaniaeth cyfartalog dros y cyfnod hwn rhwng perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr a pherfformiad Cymru Gyfan yw 5.6%


Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 5 mewn asesiad athro mewn Cymraeg?

**Ffynhonnell y Data: Perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr ar Lefel ALI yn Set Ddata Graidd Cymru Gyfan**

Blwyddyn Academaidd	Pen-y-bont ar Ogwr	Cyfartaledd Cymru
10/11	75.0%	81.34%
11/12	81.82%	84.21%
12/13	82.14%	87.58%
13/14	89.11%	90.07%
14/15	87.27%	90.9%
15/16	89.6%	92.0%

**Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 5 mewn**

### asesiad athro mewn Cymraeg



Dros y 6 blynedd ddiwethaf mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gyson yn waeth na Chyfartaledd Cymru. Y gwahaniaeth cyfartalog dros y cyfnod hwn rhwng perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr a pherfformiad Cymru Gyfan yw -3.5%

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf?


**Ffynhonnell y Data: Cyfrifiadau Mewnol o'r Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd, Ffigyrau Cymru Gyfan o'r Datganiad Ystadegol 'Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2015-2016'**

Blwyddyn Academaidd	CBS Pen-y-bont ar Ogwr			Cymru Gyfan
	Nifer sy'n ennill gradd A* - C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf	Cohort	% sy'n ennill gradd A* - C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf	% sy'n ennill gradd A* - C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf
2012/13	85	120	70.8%	73.5%



2013/14	63	97	64.9%	73.7%
2014/15	58	83	69.9%	75.2%
2015/16	77	92	83.7%	75.1%

**Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf**



Mae cyfartaledd Cymru wedi aros yn gymharol gyson dros y cyfnod hwn, tra bo'r nifer ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi amrywio'n fawr. Mae'n dra thebygol mai'r rheswm dros hyn yw ein bod yn dadansoddi cohort mor fach mewn 1 ysgol yn unig. Dylid nodi'r cyflawniad yn 2015/16 yn yr ystyr bod y perfformiad yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru.

**Gwella'r ddarpariaeth a safonau mewn Cymraeg Ail Iaith**


Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith?

**Ffynhonnell y Data: Datganiad Ystadegol 'Asesiadau Athrawon o bynciau di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol: Cymru 2016'**

	<b>CBS Pen-y-bont ar Ogwr</b>		<b>Cymru Gyfan</b>
<b>Blwyddyn Academaidd</b>	<b>%</b>	<b>Safle ymhlith ALIau Cymru</b>	<b>%</b>

2013/14	63.5	21	73.1
2014/15	71.6	18	76.1
2015/16	76.7	12	77.9

**Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith**



Dros y cyfnod hwn o 3 blynedd mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gyson islaw Cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi codi 13.2% yn y cyfnod hwn a bellach dim ond ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ydyw.

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 5 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith?


**Ffynhonnell y Data: Datganiad Ystadegol 'Asesiadau Athrawon o bynciau di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol: Cymru' 2016**

**CBS Pen-y-bont  
ar Ogwr**

**Cymru  
Gyfan**

Blwyddyn Academaidd	%	Safle ymhlith ALLau Cymru	%
2013/14	79.4	9	77.8
2014/15	81.3	12	81.2
2015/16	84.7	7	81.9

**Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 5 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith**



Dros y cyfnod hwn mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gyson yn uwch na Chyfartaledd Cymru. Fe gododd y safle ymhlith ALLau yng Nghymru yn 2015/16 o'r 7<sup>fed</sup> i'r 12<sup>fed</sup>.

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A\*-C yn y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith?

**Ffynhonnell y Data: Cyfrifiadau Mewnol o'r Crynodeb o Berfformiad Ysgolion**

**Uwchradd (Data'n seiliedig ar y rhai a gwblhaodd y cyrsiau â'r codau 50074076/50074040)**

Blwyddyn Academaidd	Nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C yn y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith	Cohort	% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C yn y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith
13/14	367	392	93.6%
14/15	483	619	78.0%
15/16	462	585	79.0%

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A\*-C yn y Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith?

**Ffynhonnell y Data: Cyfrifiadau Mewnol o'r Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd (Data'n seiliedig ar y rhai a gwblhaodd y cyrsiau â'r codau 50074052/50074088)**

Blwyddyn Academaidd	Nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C yn y Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith	Cohort	% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C yn y Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith
13/14	538	947	56.8%
14/15	557	870	64.0%
15/16	433	784	55.2%

Beth yw eich targedau ar gyfer gwella pob un o'r uchod – naill ai o un flwyddyn i'r llall neu ar ddiwedd cyfnod y Cynllun 3 blynedd?

Pa ganran o'r cohort sy'n cael eu cofrestru ar gyfer (i) Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith; (ii) Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith; a (iii) sydd ddim yn cael eu cofrestru ar gyfer y naill

na'r llall?

### Ffynhonnell y Data: Cyfrifiadau Mewnol o'r Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

#### Sylwer y cafodd rhai o'r plant eu cofrestru ar gyfer y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr

Blwyddyn Academaidd	Cohort	Cofrestrïadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith	% y Cofrestrïadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith	Cofrestrïadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith	% y Cofrestrïadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith	Heb eu cofrestru ar gyfer y naill gwrs na'r llall	% Heb eu cofrestru ar gyfer y naill gwrs na'r llall
13/14	1672	392	23.4%	947	56.6%	377	22.5%
14/15	1617	619	38.3%	870	53.8%	307	19.0%
15/16	1529	585	38.3%	784	51.3%	338	22.1%

Faint sy'n gwneud TGAU Cymraeg ar hyn o bryd?

#### Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch

Beth yw cyfanswm presennol y cofrestrïadau ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf fel canran o'r cofrestrïadau ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ddwy flynedd yn gynharach?

#### Nid yw hyn yn berthnasol gan na wnaeth unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd Safon Uwch 2 flynedd yn ôl

Beth yw cyfanswm presennol y cofrestrïadau ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith fel canran o'r cofrestrïadau ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith ddwy flynedd yn gynharach?

#### Nid yw hyn yn berthnasol gan na wnaeth unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd Safon Uwch 2 flynedd yn ôl

Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch (Mae hyn yn ymwneud â'r niferoedd sy'n ennill cymwysterau Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith)

### Ffynhonnell y Data: Cyfrifiadau Mewnol o'r Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

		Cohort a safodd yr arholiad	Wedi ennill graddau A* - E	% a enillodd raddau A* - E
Cymraeg Iaith Gyntaf	A2	9	9	100%
Cymraeg Iaith Gyntaf	AS	10	10	100%
Cymraeg Ail Iaith	A2	21	21	100%
Cymraeg Ail Iaith	AS	28	28	100%

Safle Presennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Cymraeg Iaith Gyntaf (CIG): Cofrestriadau Safon Uwch fel % o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU CIG ddwy flynedd yn gynharach: 9.57%	10%	11%	12%
<b>Cymraeg 2il Iaith (C2I):</b> Cofrestriadau Safon Uwch fel % o'r cofrestriadau ar gyfer y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr TGAU C2I ddwy flynedd yn gynharach: 1.62%	2%	3%	4%

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled gan gyfeirio at atodiad 1 ar gyfer y data bydd angen i chi'u cynnwys ar gyfer y deilliant yma).**

- Cynnal y gyfran uchel o ddisgyblion sy'n astudio'r iaith mewn addysg cyfrwng Cymraeg
- Cynyddu niferoedd y disgyblion cyfrwng Saesneg sy'n astudio'r Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith
- Penderfynu ar ddulliau darparu hyfwr ar gyfer Cymraeg Ail Iaith trwy'r Adolygiad Strategol (fel a nodwyd ym mhapur y Cabinet dyddiedig 25 Hydref 2017)
- Bydd ysgolion yn gallu ymateb i newidiadau ym manylebau'r arholiadau ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith.

**Datganiad Ategol:**

Mae cyfran fawr o'r cohort ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wedi'u cofrestru ar gyfer Cymraeg Uwch Gyfrannol (19%) a Safon Uwch (31%) fel a nodwyd yn adroddiad y Cabinet (25 Hydref 2017, pwynt 4.7): caiff y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ei gwella trwy gydweithio helaeth rhwng Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Ysgol Gyfun Llanhari yn Rhondda Cynon Taf.

**Mewnbyn y Consortiwm:**

Mae codi safonau mewn llythrennedd Cymraeg/Cymraeg yn flaenoriaeth benodol ar gyfer gwella yng nghynllun busnes y Consortiwm. Mae hyn yn golygu bod cyflawni gwelliant yn neilliannau dysgwyr mewn Cymraeg yn ffactor allweddol pan fo'r consortiwm yn cynllunio darpariaeth hyfforddi mewn ysgolion hwb a phob agwedd arall ar ei weithgarwch gwella

ysgolion.

Mae deilliannau ar gyfer Cymraeg wedi gwella'n ddramatig ar draws y rhanbarth ers 2012. Gyda chynnydd arbennig o arwyddocaol mewn deilliannau sydd uwchlaw'r lefelau disgwylidig ym mhob cyfnod o'r Cyfnod Sylfaen i CA3. Mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A-C mewn Cymraeg TGAU wedi neidio bron i 9 pwynt canran ers 2012/13 i 85.9%.

Bydd gwelliant pellach yn cael ei sicrhau trwy wneud y canlynol, er enghraifft:

Parhau i ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr sydd wedi'u bwriadu i:

- Wella sgiliau iaith ymarferwyr eu hunain
- Gwella'r addysgu trwy, er enghraifft, ddarparu hyfforddiant ar y cynllun NAiD (asesu ar gyfer dysgu, cinio cynnydd, datblygu dysgu annibynnol, dysgu seiliedig ar ymholi, gweithgareddau datblygu)
- Gwella arweinyddiaeth trwy ddarparu rhaglenni arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer penaethiaid ac arweinwyr canol newydd.
- Sefydlu arfer addysgu Cymraeg effeithiol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ledled yr awdurdod lleol (rhaglenni'n cael eu cynnig gan ysgolion y mae eu darpariaeth Cymraeg ail iaith bresennol yn dda, e.e. y prosiect Bagloriaeth Cymru rhwng Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ac Ysgol Gynradd Llangynwyd)

Bydd y Consortiwm hefyd yn:

- Parhau i gefnogi rhwydweithiau o ysgolion cyfrwng Cymraeg i rannu a datblygu arfer da
- Gweithio gyda'r rhwydwaith ysgolion hwb/arloesi i ddatblygu'r continwmm Cymraeg a sicrhau bod rhaglen dysgu proffesiynol y Consortiwm wedi'i bwriadu i ymateb i anghenion datblygu'r gweithlu mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.

Mae'r Consortiwm wrthi ar hyn o bryd (Medi 2016) yn recriwtio pennaeth sydd mewn swydd i gefnogi'r Siarter Iaith a'r prosiect Cefnogi Arferion Pobl Ifanc.

Mae'r Dadansoddiad Interim o Anghenion TGAU Cymraeg Ail Iaith wedi cael ei anfon at yr holl ysgolion. Bydd y Continwmm Iaith Gymraeg yn ei le o 2020 fel rhan o'r Cwricwlwm newydd. Mae cymorth yn cael ei gynllunio o fewn y Consortiwm ar gyfer ysgolion i baratoi ar gyfer y newidiadau (yn barod ar gyfer mis Medi 2017 ar gyfer TGAU)

## Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg

*Mae'r canolbwynt, yma, ar gynyddu capasiti i gynnal darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol briodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pob cyfnod addysg. Yn arbennig, gofynnir i chi nodi sut yr ydych yn mesur ac yn ateb y galw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg, ac yn gweithio gyda rhieni sy'n ei cheisio. Sut yr ydych yn cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill i gynnal darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg.*

Cofiwch gynnwys y canlynol yn eich ymateb:

- *yng ngoleuni eich archwiliad blynyddol mwyaf diweddar o anghenion ychwanegol disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, cymorth ar gyfer pa fath o angen y mae'r awdurdod yn methu â'i roi trwy gyfrwng y Gymraeg;*
- *sut y mae'r awdurdod yn bwriadu pontio'r bwlch rhwng anghenion a adnabuwyd a'r cymorth sydd ar gael; a*
- *nodwch amcangyfrif o faint o ddisgyblion sy'n methu â chael addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd nad oes modd i'r awdurdod roi cymorth priodol trwy gyfrwng y Gymraeg.*

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

- Gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiad o gymorth ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol ac estyn cymorth ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol i Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg o fis Ebrill 2017.
- Sefydlu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd a naill ai ar safle newydd Cwm Garw neu yn Ysgol y Ferch o'r Sger - 2018.
- Datblygu darpariaeth Uned Cyfeirio Disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad gyda'r Awdurdodau Lleol yng Nghonsortium Canol De Cymru.
- Parhau i fapio'r ddarpariaeth ar gyfer ADY ac archwilio cyfleoedd i gydweithio fel Consortium.

### Datganiad Ategol.

- **Gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiad o gymorth ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol ac estyn cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Cymedrol i Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg o fis Ebrill 2017.**

Cynhaliwyd a chwblhawyd adolygiad diweddar o'r cymorth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc â diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Ar ôl ymgynghori â Phenaethiaid y pedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd cytunwyd y bydd y model cymorth yn newid. Bydd athrawon Anawsterau Dysgu Cymedrol yn gweithio gydag ysgolion am ddiwrnod cyfan ar y tro a bydd y Swyddogion Cymorth Dysgu'n cael eu cyflogi gan yr ysgolion. Bydd y cymorth gan yr Athro/Athrawes Arbenigol Anawsterau Dysgu Cymedrol yn ymestyn i'r Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg lle nad oedd hyn yn digwydd yn flaenorol. Ar hyn o bryd mae 15 o blant â diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol.

- **Sefydlu Darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ar safle newydd Cwm Garw-2018/2019.**



Mae Ysgol Gynradd Cwm Garw yn cael ei hadleoli i adeilad newydd sy'n nes at ardal Porth y Cymoedd yn 2018/2019. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r Awdurdod Lleol agor darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y safle gan fod ardal wedi'i neilltuo ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ardal yr un fath yn yr Ysgol Cyfrwng Saesneg ar yr un campws hefyd. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Phenaethiaid Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg ynghylch datblygu'r ddarpariaeth hon. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i gynnal dadansoddiad o'r anghenion a chysylltu â Phenaethiaid yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant wedi cael adnodd ychwanegol i ymgynghori ynghylch agor dwy Ganolfan Adnoddau Dysgu Cyfrwng Cymraeg, y naill ar gyfer CA3 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd a'r llall naill ai yng Nghwm Garw neu yn Ysgol y Ferch o'r Sger. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu ymgynghori yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Ar hyn o bryd, mae 13 o blant a fyddai'n gallu cael mynediad at y Ganolfan Adnoddau Dysgu Anawsterau Dysgu Cymedrol ar gyfer CA2 ac mae 0 o blant a fyddai'n gallu cael mynediad at y Ganolfan Adnoddau Dysgu Anawsterau Dysgu Cymedrol ar gyfer CA3.

Data Dros Dro o CYBLD 17 – Disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn ôl Grŵp Blwyddyn

CYBLD 17 – Disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol	Grŵp Blwyddyn									
	3	4	5	6	7	8	9	10	11	
<b>Ysgolion Cymraeg</b>										
YGG Cwm Garw		1								
YGG Cynwyd Sant	3		1							
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr		3	1							
Ysgol y Ferch o'r Sger	1	1	1	1						
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd								1	1	

#### **Data ar Berfformiad Disgyblion ag ADY o'i gymharu â Disgyblion heb ADY mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg**

Mae'r data hwn yn cymharu perfformiad disgyblion ag ADY o'i gymharu â disgyblion heb ADY mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg gan ystyried hynny ochr yn ochr ag ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ar y cyfan.

Mae'r data wedi'i rannu'n 4 elfen:-

- Y rhai sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- Y rhai sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2
- Y rhai sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3
- Y rhai sy'n cyflawni'r dangosydd L2+ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4

Sylwer mai dim ond data o ysgolion prif ffrwd y mae'r data hwn yn ei gymharu, ac y dygir cymariaethau ar draws y 3 blynedd ddiwethaf.

Sylwer bod meintiau bach y cohortau sydd mewn rhai grwpiau blwyddyn yn yr Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn golygu bod y canrannau'n gallu amrywio ac felly mae angen trin y data â phwyll wrth ei ddefnyddio at ddibenion dadansoddi.

Daw'r holl ddata o gyfrifiadau mewnol o CYBLD a'r drefn Casglu Data Cenedlaethol.

Nid yw'n bosibl dwyn cymhariaeth rhwng perfformiad Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr a pherfformiad Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yng ngweddill Cymru.

- **Datblygu darpariaeth Uned Cyfeirio Disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad gyda'r Awdurdodau Lleol yng Nghonsortium Canol De Cymru.**

Mae'r Arweinwyr Cynhwysiant o bob Awdurdod Lleol yn cwrdd yn fisol. Ar hyn o bryd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Cynhwysiant a Gwella Ysgolion sy'n arwain y grŵp yma. Mae trafodaethau cychwynnol wedi dechrau i ystyried datblygiad posibl Uned Cyfeirio Disgyblion Cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad gydag ALLau eraill. Mae hyn yn ffocws ar gyfer datblygu i'r Consortium ym mlwyddyn ariannol 2017/18. Byddai'n ofynnol cydweithio yn y maes hwn gan fod y niferoedd ym mhob ALI yn fach. Ar hyn o bryd mae 4 disgybl cyfrwng Cymraeg sy'n cael mynediad at Ddarpariaeth Amcan y Bont (Darpariaeth ar gyfer gorbryder ac iechyd meddwl yn CA4).

#### **Parhau i fapio'r ddarpariaeth ar gyfer ADY ac archwilio cyfleoedd i gydweithio fel Consortium.**

Mae gwaith i Fapio'r Ddarpariaeth yn cael ei wneud ar hyn o bryd dan arweiniad y Rheolwr Grŵp ar gyfer Cynhwysiant a Gwella Ysgolion mewn perthynas â darpariaeth ADY (sy'n cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg) yn yr Awdurdod Lleol. Mae hyn hefyd yn rhan o'r drafodaeth yng nghyfarfodydd Arweinwyr Cynhwysiant yng Nghonsortium Canol De Cymru. Ar hyn o bryd mae adolygiad synhwyraidd o'r ddarpariaeth ac anghenion yn cael ei gynnal dan arweiniad Pen-y-bont ar Ogwr ar ran ALLau eraill yn y Consortium.

## **Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

*Mae a wnelo'r deilliant hwn â datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysgu a'i allu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Dylai'r ymateb egluro strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer sicrhau nifer digonol o athrawon a chynorthwywyr addysgu sy'n gallu darparu addysg cyfrwng Cymraeg, a sut y bydd sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr mewn ysgolion yn cael eu datblygu.*

*Dylai ymatebion nodi rôl cynlluniau datblygu ysgol ac archwiliadau o sgiliau iaith Gymraeg neu brosesau tebyg eraill o ran adnabod anghenion datblygu'r gweithlu yn y maes hwn. Dylid rhoi eglurhad o'r modd y bydd yr anghenion hyn yn cael eu blaenoriaethu a'u diwallu. Gall hyn gynnwys y cymorth a'r datblygiad a gynigir gan y Consortiwm rhanbarthol neu o ffynonellau eraill, ond rhaid cyfeirio'n benodol at y modd y bydd y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.*

*Cofiwch gynnwys y canlynol yn eich ymateb:*

- Beth yw eich strategaeth i sicrhau bod gennych ddigon o athrawon i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn eich ysgolion;*
- Beth yw eich strategaeth i recriwtio penaethiaid ac athrawon sy'n siarad Cymraeg;*
- Beth yw eich strategaeth i gynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg; a*
- Sut fydd yr awdurdod lleol yn sicrhau y bydd y Cynllun yn cyfrannu at strategaethau ehangach y Sir a'r Consortiwm ar gyfer gwella safonau addysg.*

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

### **Amcanion:**

1. Cysylltu â Strategaeth Pum Mlynedd y Cyngor ar gyfer Safonau'r Gymraeg i gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
2. Cwblhau ffrwd waith 'Y Cwricwlwm a'r Gweithlu yn yr Adolygiad Strategol a gweithredu ar yr argymhellion sy'n dilyn.
3. Parhau i gysylltu â rhaglen DPP Consortiwm Canol De Cymru a'i hyrwyddo
4. Parhau i gysylltu â'r Blynyddoedd Cynnar a'r Mudiad Meithrin
5. Datblygu cyswllt â Chynllun Sabothol Llywodraeth Cymru a'i hyrwyddo

### **Datganiad Ategol:**

- 1. Cysylltu â Strategaeth Pum Mlynedd y Cyngor ar gyfer Safonau'r Gymraeg i gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.**

Mae Tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu'r Cyngor wedi bod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle trwy Fwrdd Gweithredu Safonau'r Gymraeg yn y Cyngor i gefnogi Safonau'r Gymraeg. Maent wedi sefydlu tudalennau pwrpasol ar y fewnwyd staff i gynorthwyo gyda'r gofynion, e.e. darparu templed ar gyfer ateb y ffôn. Bu negeseuon atgoffa rheolaidd hefyd ynglŷn ag agweddau penodol ar ofynion a sesiynau briffio ar gyfer staff i drafod yr hyn sy'n ofynnol. Mae'r Tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu wedi cefnogi'r paratodau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd hefyd gyda chyhoeddu'rwydd a oedd yn ymwneud â gorymdaith gyhoeddi'r Urdd a oedd yn cynnwys nodweddion arbennig yn y cylchlythyr Bridgenders.

**Caiff ffigyrau ar sgiliau Iaith Gymraeg cyflogeion Gwasanaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd Pen-y-bont ar Ogwr ar 31/03/2017 eu darparu isod:**

Disgrifiad	Ysgolion				Pob Gwasanaeth Arall (gan gynnwys Addysg a Chymorth i Deuluoedd)			
	Menywod	Dynion	Cyfanswm	%	Menywod	Dynion	Cyfanswm	%
Siarad Cymraeg								
'Ychydig'	298	46	344	10.80%	305	95	400	12.71%
'Gweddol dda'	53	16	69	2.17%	38	10	48	1.53%
'Rhugl'	138	20	158	4.96%	80	17	97	3.08%
'Na'	268	51	319	10.02%	1013	298	1311	41.67%
Dim Ymateb	1893	401	2294	72.05%	1002	288	1290	41.00%
Darllen Cymraeg								
'Ychydig'	288	43	331	10.40%	318	102	420	13.35%
'Gweddol dda'	56	17	73	2.29%	50	18	68	2.16%
'Rhugl'	139	21	160	5.03%	78	15	93	2.96%
'Na'	274	52	326	10.24%	989	285	1274	40.50%
Dim Ymateb	1893	401	2294	72.05%	1003	288	1291	41.04%
Ysgrifennu Cymraeg								
'Ychydig'	259	37	296	9.30%	233	71	304	9.66%
'Gweddol dda'	54	16	70	2.20%	43	11	54	1.72%
'Rhugl'	132	20	152	4.77%	70	12	82	2.61%
'Na'	311	60	371	11.65%	1089	325	1414	44.95%
Dim Ymateb	1894	401	2295	72.08%	1003	289	1292	41.07%

Mae'n werth nodi'r canlynol:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn cynnwys cyflogeion a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrrff llywodraethu. Mae staff y Gwasanaeth Cynhwysiant wedi'u cynnwys dan y categori 'Pob Gwasanaeth Arall'.
- Mae'r categori 'Dim Ymateb' yn cynnwys cyflogeion sydd heb ymateb i'r arolwg Cydraddoldebau.
- Mae'r lefelau sgiliau a nodir yn seiliedig ar hunanasesiad unigol.
- Sylwer: mae gan 265 o gyflogeion swydd mewn Ysgol a swydd 'Pob Gwasanaeth Arall' – cânt eu cyfrif unwaith ym mhob categori.

### Recriwtio

Rydym wedi hysbysebu 3 swydd pennaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y 2 flynedd ddiwethaf.

YGG Llangynwyd – llai na 5 ymgeisydd ac fe benodwyd y dirprwy a oedd yn gweithredu fel pennaeth dros dro

YGG Bro Ogwr – 7 ymgeisydd – penodiad yn yr arfaeth

YGG Cwm Garw – 4 ymgeisydd – penodwyd y dirprwy a oedd yn gweithredu fel pennaeth dros dro

Mae niferoedd yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid yn tueddu i fod yn isel; fodd bynnag mae niferoedd yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid mewn ysgolion Cymraeg yn isel iawn. Mewn cyfarfod diweddar i adolygu'r ddarpariaeth Ôl-16 gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd dywedwyd: *"Ceir pwysau sylweddol o ran recriwtio staff cyfrwng Cymraeg er enghraifft mewn Gwyddoniaeth lle mae'r gronfa o ymgeiswyr wedi gostwng o 22 i 1 dros y 3 blynedd ddiwethaf"*

### Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)

Cafodd y broses CPCP ar gyfer 2016/17 ei chwblhau ym mis Mai 2017. Yn y sector cyfrwng Cymraeg, llwyddodd dirprwy bennaeth Bro Ogwr a phennaeth dros dro Cwm Garw i ennill y cymhwyster. Mae dirprwy newydd Llangynwyd yn meddu ar y CPCP hefyd.

Mae aelodau o Uwch Dimau Arwain (UDA) sy'n meddu ar y CPCP yn cynnwys: 1 ym Mro Ogwr (Dirprwy), 1 yn Llangynwyd (Dirprwy) a'r pennaeth dros dro yng Nghwm Garw. Nid yw'r un aelod o'r UDA yn Ysgol y Ferch o'r Sger nac Ysgol Cynwyd Sant yn meddu ar y CPCP. Bydd y cylch CPCP nesaf yn dechrau yn nhymor yr haf 2017. Nid oes unrhyw un wedi mynegi diddordeb yn ystod unrhyw drafodaethau.

## 2. Cwblhau ffrwd waith 'Y Cwricwlwm a'r Gweithlu yn yr Adolygiad Strategol a gweithredu ar yr argymhellion sy'n dilyn.

Mae ffrwd waith y Cwricwlwm a'r Gweithlu yn yr Adolygiad Strategol wedi'i bwriadu i ganolbwyntio ar anghenion cwricwlaidd ysgolion a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu gan staff/athrawon a hyfforddwyd yn briodol. Bydd Safonau'r Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith yma ac yn cael eu cynnwys mewn argymhellion a wneir maes o law. Gall hyn gynnwys ystyriaeth i gyfleoedd cymdeithasol a chymorth sydd ar gael i'r gweithlu hefyd. Rhagwelir y bydd y ffrwd waith hon yn adrodd ar ei chanfyddiadau a'i hargymhellion wrth y bwrdd strategol trosfwaol yn haf 2017, er y disgwylir mai'r Consortiwm fydd yn arwain y gwaith yma.

## 3. Parhau i gysylltu â rhaglen DPP Consortiwm Canol De Cymru a'i hyrwyddo

**Athrawon:**

Nid yw'n eglur eto faint o athrawon/pa lefel sgiliau fydd yn ofynnol i weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymraeg. Fodd bynnag, bydd y Consortiwm yn defnyddio data'r gweithlu i barhau i lunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu rhanbarthol.

Mae'r Consortiwm hefyd yn cydweithio'n agos gyda darparwyr Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (AHCA) i ddatblygu rhaglenni a ddarperir ar y cyd (gan ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch) ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Mae'r rhain yn cael eu llunio fel eu bod yn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd a byddant yn cynnwys datblygu gweithlu â chymwysterau addas i ddarparu'r continwmm Cymraeg.

Yn y tymor byrrach, mae recriwtio i swyddi addysgu penodol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn her. Mae Mathemateg, y Gwyddorau a Saesneg yn her arbennig. Ymdrinnir â hyn trwy ddarpariaeth 'hwb' sy'n cynnig hyfforddiant i rai nad ydynt yn arbenigo yn y pynciau i'w galluogi i addysgu pynciau ar wahân i'w prif arbenigedd yn effeithiol.

### **Arweinyddiaeth:**

Mae recriwtio i swyddi penaethiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn her. Mae adnabod, datblygu a chefnogi arweinwyr ysgolion yn flaenoriaeth strategol i'r rhanbarth yn fwy eang hefyd. Mae'r strategaeth cymorth, datblygu a recriwtio'n cynnwys y canlynol.

Cynyddu nifer y rhaglenni hyfforddi i arweinwyr ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd wedi cynnig trefnu bod y rhaglenni ar gael i ranbarthau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Rhaglen 'Newydd i Brifathrawiaeth' achrededig a fydd yn cael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17;
2. Mae'r rhaglen 'Prifathrawiaeth Yn Awr' (ar gyfer arweinwyr canol sydd â'u bryd ar ddilyn gyrfa fel penaethiaid) yn cael ei threialu ar hyn o bryd.
3. Bydd yr ysgolion 'hwb' uwchradd cyfrwng Cymraeg yn darparu rhaglen 'arweinyddiaeth ganol' yn ystod y flwyddyn academaidd hon

Hefyd:

4. Mae Uwch Arweinydd mewn Addysg (UAA) wrthi'n cael ei recriwtio i ddatblygu a chefnogi arweinyddiaeth mewn ysgolion sy'n wynebu her
5. Mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyllido i weithio mewn Grŵp Gwella Ysgolion ar arweinyddiaeth: datblygu arweinwyr canol, rhannu arfer da, adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol
6. Ymgyrch recriwtio sydd wedi'i fwriadu i ddenu arweinwyr i weithio fel penaethiaid yng Nghymru, gan gynnwys penaethiaid presennol sy'n ymarferwyr Cymraeg eu hiaith sy'n gweithio mewn ardaloedd eraill ar hyn o bryd.
7. Mae'r Consortiwm yn cyflwyno rhaglen gymorth i ysgolion sy'n dymuno ffedereiddio. Mae hon ar agor i'r holl ysgolion. Bydd yn ofynnol i'r ysgolion a gaiff eu dethol ar gyfer y rhaglen gymorth ddangos y bydd ffedereiddio:
8. Yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr
9. Yn cynyddu'r capasiti arweinyddiaeth yn yr ysgolion

Sylwer: Mae gwerthuso effaith y rhaglenni, yr hybiau a gweithgarwch Grwpiau Gwella Ysgolion ar ymarferwyr a dysgwyr yn rhan o raglen ymchwil barhaus y Consortiwm, a gyflawnir ar y cyd gyda Phrifysgol Caerdydd.

Hefyd, mae cwrs arweinwyr canol ar gael trwy Ysgol Gynradd Melin Gruffydd ac mae ysgolion uwchradd yn cefnogi arweinyddiaeth fel rhan o'r rhaglen Gyda'n Gilydd.

### **Cynorthwywyr Addysgu**

Mae nifer y cynorthwywyr addysgu/y lefel sgiliau iaith a fydd yn ofynnol i weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymraeg yn effeithiol yn cael eu hadolygu. Bydd y consortiwm

yn defnyddio data'r gweithlu i barhau i lunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu rhanbarthol. Mae rhaglen o gymorth i Gynorthwyr Addysgu yn y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei darparu gan Ysgol Llanhari; mae cwrs Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch yn cael ei redeg trwy Gonsortwm Canol De Cymru ac mae cwrs sabothol Iaith Gymraeg i Gynorthwyr Addysgu ar gael trwy Brifysgol Caerdydd.

#### 4. Parhau i gysylltu â'r Blynyddoedd Cynnar a'r Mudiad Meithrin

Mae'r Mudiad Meithrin yn awyddus i weithio gyda'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg/ gofal plant i ennill diploma Lefel 3 mewn gofal cymdeithasol plant (Atodiad B)

#### 5. Datblygu cyswllt â Chynllun Sabothol Llywodraeth Cymru a'i hyrwyddo

Mae'r awdurdod lleol wedi archwilio manylion y Cynllun Sabothol sydd wedi bod yn weithredol ers 2005 ac a gynigir gan Brifysgol Caerdydd i gefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg 15 aelod o staff Pen-y-bont ar Ogwr allan o 76 aelod o staff ar draws Consortiwm Canol De Cymru (ar amryw lefelau) trwy ddarparu cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr cyfrwng Cymraeg ac Ail Iaith. Yn y sector cyfrwng Cymraeg maent yn rhedeg cwrs i Athrawon sydd wedi'i fwriadu i wella gallu disgyblion. Mae Cynorthwyr Addysgu cyfrwng Cymraeg yn cael y cyfle i wella'u Cymraeg. Ar gyfer y cymorth i ymarferwyr ail iaith, maent yn addysgu Cymraeg i oedolion gan felly roi iddynt y sgiliau i'w defnyddio yn yr Ystafell Ddosbarth.

**Mae'r niferoedd a gwblhaodd y cwrs o 2005-2017 fel a ganlyn:**

Niferoedd wedi cwblhau cwrs CS Medi 2005 - Gorffennaf 2017/

	Mynediad	Sylfaen	Uwch	Uwch i Gynorthwyr
Awdurdod Lleol	Cynorthwyr dysgu - ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg		Cynorthwyr dysgu - ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
Pen-y-bont ar Ogwr	7	7		1

Cofrestriadau ar gyfer cyrsiau CS 2017/18

	Mynediad	Sylfaen	Uwch	Uwch i Gynorthwyr
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1		

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r Cynllun yn cynnig ystod o gyrsiau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cohortau amrywiol o

fewn y gweithlu addysgu. Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen ganlynol - <http://learning.gov.wales/resources/collections/welsh-lang-practitioner-training?lang=cy#collection-2>. Mae mynediad at y cyrsiau hyn i gyd yn rhad ac am ddim. Darperir cyllid ar gyfer ysgol sy'n cyfranogi i dalu am staff cyflenwi hefyd.

Nod yr Uned Cymraeg mewn Addysg yw bod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ar y cyd â'u hysgolion, yn enwi ymarferwyr a fyddai'n cael budd o gyfranogi yn y Cynllun, ac yna'n gweithio gyda darparwyr y cyrsiau i gael mynediad at y Cynllun. Caiff cyrsiau'r Cynllun yn rhanbarthau Consortiwm Canolbarth y De a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg eu cydgysylltu gan Brifysgol Caerdydd (ond darperir cyrsiau ledled y rhanbarth – ar hyn o bryd yng Nghaerdydd, Trefforest a Phont-y-pŵl).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Prifysgol Caerdydd hefyd - <http://www.cardiff.ac.uk/welsh/courses/professional-courses-and-welsh-for-adults/sabbatical-scheme>

Bydd y cyfleoedd hyn yn cael eu hyrwyddo i'r holl ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr (2017-18) trwy gylchlythyr y Cyfarwyddwr i ysgolion, trwy Fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a thrwy Consortiwm Canol De Cymru.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

(Mae angen i hwn gael ei lofnodi gan y Prif Swyddog Addysg mewn awdurdod lleol)

Atodiad 1 Data:-





**I Blant**  
For Kids

Prosiect newydd a reolir gan y Mudiad Meithrin ac a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant o oedran meithrin sy'n gallu siarad Cymraeg yw Cymraeg i Blant. Mae'n rhannu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni ynghylch manteision bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno Cymraeg i blant mor gynnar â phosibl a manteision gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Cymraeg i blant yn noddi'r ffolder nodiadau mamolaeth Cymru gyfan, y cerdyn sganiau a'r llyfr Cofnod lechyd Plentyn a ddarperir ar gyfer pob rhiant newydd yng Nghymru.

Mae'r swyddog Cymraeg i Blant lleol yn rhedeg sesiynau tylino babanod, ioga babanod ac amser rhigymau Cymraeg i rieni a phlant bach ledled y sir gan weithio ochr yn ochr â'r timau Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr lechyd lleol i sicrhau bod rhieni'n cael y negeseuon cynnar allweddol hyn yn ystod y cyfnod cyn-geni ac ar ôl geni ac yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r llwybr dwyieithog sydd ar gael i'w plentyn.

Hefyd, caiff rhieni eu cyfeirio at Gylchoedd Ti a Fi'r Mudiad Meithrin ac at y Cylchoedd Meithrin yn ogystal â chael gwybodaeth am ddigwyddiadau rheolaidd i deuluoedd a gynhelir mewn partneriaeth gyda'r Mentrau Iaith a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r Blynyddoedd Cynnar.

Felly bydd Cymraeg i blant yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

